# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 5
27/04/20

# Ail gyfle Pedr

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy & Rachel Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams,
Rachel Hughes & Greg Leavers

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori



## Fersiwn Beibl.net

Dyma Iesu'n ymddangos eto i'w ddisgyblion wrth Lyn Tiberias. Dyma beth ddigwyddodd:
Roedd criw ohonyn nhw gyda'i gilydd – Simon Pedr, Tomos (oedd yn cael ei alw 'Yr Efaill'), Nathanael o Cana Galilea, meibion Sebedeus, a dau ddisgybl arall. "Dw i'n mynd i bysgota," meddai Simon Pedr wrth y lleill. A dyma nhw'n ateb, "Dŷn ni am ddod hefyd." Felly aethon nhw allan mewn cwch, ond wnaethon nhw ddal dim drwy'r nos. Pan oedd hi yn dechrau gwawrio dyma Iesu'n sefyll ar lan y llyn, ond doedd y disgyblion ddim yn gwybod mai Iesu oedd yno. Galwodd arnyn nhw, "Oes gynnoch chi bysgod ffrindiau?"
"Nac oes," medden nhw.
Yna dwedodd Iesu, "Taflwch y rhwyd ar ochr dde'r cwch, a byddwch yn dal rhai." Dyma nhw'n gwneud hynny, a chafodd cymaint o bysgod eu dal nes eu bod nhw'n methu tynnu'r rhwyd yn ôl i'r cwch.
Dyma'r disgybl roedd Iesu'n ei garu yn dweud wrth Pedr, "Yr Arglwydd ydy e!" A dyma Simon Pedr yn rhwymo dilledyn am ei ganol (doedd ganddo ddim byd amdano), yna neidio i'r dŵr. Daeth y disgyblion eraill ar ei ôl yn y cwch, gan lusgo'r rhwyd oedd yn llawn o bysgod ar eu holau. (Doedden nhw ond ryw 90 metr o'r lan.) Ar y lan roedd tân golosg a physgod yn coginio arno, ac ychydig fara.
"Dewch â rhai o'r pysgod dych chi newydd eu dal," meddai Iesu wrthyn nhw. Felly dyma Simon Pedr yn mynd i mewn i'r cwch a llusgo'r rhwyd i'r lan. Roedd hi'n llawn o bysgod mawr, 153 ohonyn nhw, ond er hynny wnaeth y rhwyd ddim rhwygo.
"Dewch i gael brecwast," meddai Iesu. Doedd dim un o'r disgyblion yn meiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" – roedden nhw'n gwybod yn iawn mai'r Meistr oedd e. Yna dyma Iesu'n cymryd y bara a'i roi iddyn nhw, a gwneud yr un peth gyda'r pysgod. Dyma'r trydydd tro i Iesu adael i'w ddisgyblion ei weld ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw.

Pan oedden nhw wedi gorffen bwyta, dyma Iesu'n troi at Simon Pedr a dweud, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i fwy na'r rhain?"
"Ydw, Arglwydd," atebodd, "rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di."
Dwedodd Iesu wrtho, "Gofala am fy ŵyn."
Yna gofynnodd Iesu eto, "Simon fab Ioan, wyt ti wir yn fy ngharu i?"
Dwedodd eto, "Ydw, Arglwydd, rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di."
Meddai Iesu, "Arwain fy nefaid."
Yna gofynnodd Iesu iddo'r drydedd waith, "Simon fab Ioan, wyt ti'n fy ngharu i?" Roedd Pedr yn ddigalon fod Iesu wedi gofyn eto'r drydedd waith, "Wyt ti'n fy ngharu i?" "Arglwydd," meddai, "rwyt ti'n gwybod pob peth; rwyt ti'n gwybod mod i'n dy garu di." Yna dwedodd Iesu, "Gofala am fy nefaid. Cred di fi, pan oeddet ti'n ifanc roeddet yn gwisgo ac yn mynd i ble bynnag oeddet ti eisiau; ond pan fyddi'n hen byddi'n estyn allan dy freichiau, a bydd rhywun arall yn dy rwymo di ac yn dy arwain i rywle ti ddim eisiau mynd." (Dwedodd Iesu hyn i ddangos sut fyddai Pedr yn marw i anrhydeddu Duw.)
Yna dyma Iesu'n dweud wrtho, "Dilyn fi."

*Ioan 21:1-19 Beibl.net*



## Fersiwn syml

Aeth Pedr a rhai o ffrindiau eraill Iesu i bysgota. Ond wnaethon nhw ddim dal yr un pysgodyn drwy'r nos! Yn y bore gwelson nhw Iesu yn sefyll ar lan y llyn, ond doedden nhw ddim yn gwybod pwy oedd o. "Taflwch y rhwyd i'r ochr dde!" galwodd Iesu. A dyma nhw'n dal 153 o bysgod! Yna cawson nhw fara a physgod i frecwast, a roedden nhw'n gwybod mai Iesu oedd o. Dwedodd Iesu wrth Pedr, 'Dwi eisiau i ti fy nilyn i ac edrych ar ôl pobl i mi.

# Lliwio

© Crafting the Word of God



Ddwedodd Iesu, "Taflwch y rhwyd ar ochr dde'r cwch, a byddwch yn dal rhai." Dyma nhw'n gwneud hynny, a chafodd cymaint o bysgod eu dal nes eu bod nhw'n methu tynnu'r rhwyd yn ôl i'r cwch.

Ioan 21 adnod 6

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | G | S | U | LL | DD | O | C | W | CH | G | B |
| P | U | M | P | U | Y | TH | N | Y | LL | S | R |
| CH | Y | D | FF | I | W | H | O | N | C | D | E |
| W | U | FF | R | T | L | P | I | M | E | L | C |
| E | T | R | I | N | G | I | L | P | T | A | W |
| D | RH | F | N | A | R | E | B | E | T | L | A |
| P | E | I | D | C | A | S | Y | O | R | W | S |
| N | LL | W | I | N | F | U | G | N | E | RH | T |
| A | U | R | A | C | I | S | S | B | W | D | U |
| O | S | TH | U | W | Y | A | I | Y | M | E | D |
| I | A | G | O | P | TH | C | D | O | FF | G | I |
| N | P | L | I | T | O | M | O | S | N | H | A |

ARGLWYDD
BRECWAST
CANT
CARU
CWCH
DEG
DISGYBLION

FFRINDIAU
IAGO
IESU
IOAN
LLUSGO
LLYN
NATHANAEL

PEDR
PUMP
PYSGOTA
TOMOS
TRI
RHWYD




# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori efo'n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn:


1. Sut wyt ti'n teimlo am dy fod yn methu gweld dy ffrindiau?
2. Sut wyt ti'n meddwl oedd y disgyblion yn teimlo am nad oedden nhw'n gallu gweld Iesu?
3. Pam wyt ti'n meddwl fod Pedr a'r disgyblion wedi mynd i bysgota?
4. Sut oedd Ioan yn gwybod mai Iesu oedd ar y lan?
5. Pam wyt ti'n meddwl fod Iesu wedi gofyn i Pedr os oedd o'n ei garu?

# Posau



## Llun cymysglyd

Mae rhywun wedi cymysgu holl sgwariau'r llun.
Wnei di eu didoli a'u gosod yn y lle iawn ar y grid?




| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

## Gair côd

Edrycha ar y grid i ddod o hyd i bob llythyren a gwneud gair. Cychwynna ar y llythyren a ddangosir a dilyna gyfeiriad y saethau er mwyn cyrraedd y llythyren y dylet ei hysgrifennu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| M | E | L | A |
| T | P | DD | N |
| F | A | U | O |

M ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ← | ↓ | → | ↑ | ↓ | ↓ | → | ← |
| ← | ← | ↓ | ↑ | → | ← | → | ↑ |
| ↑ | ← | → | ← | ↑ | ↓ | → | ← |
| DD | N | M | U | A | L | T | U |

# Sialens

## Creu Darlun

Drwy ddefnyddio dillad, llieiniau, dillad cyffredin a phethau sydd o dy cwmpas, creua ddarlun mawr o stori heddiw
e.e. Iesu a Pedr yn cael sgwrs ar lan y llyn neu'r disgyblion yn y cwch yn dal pysgod a sylweddoli mai Iesu sydd ar lan y llyn.













Beth am ddefnyddio Lego i wneud model o’r stori?

Beth am wneud model o dân a brecwast o bysgod allan o sbwriel ailgylchu glân.



# Crefft

## Cychod Poteli Pop



**Byddwch angen:**

- Poteli pop plastig, gwag 2litr
- Gwelltyn
- Blue Tack
- Bag rhwyllog e.e. sy'n dal lemonau/orenau
- Cerdyn gwyn
- Pinnau ffelt
- Siswrn
- Tâp selo






1.Tynnwch y label a'r caead oddi ar y botel. Gwasgwch y botel i lawr yn y canol.




2.Yn ofalus torrwch y botel yn ei hanner (efallai y byddwch angen cymorth oedolyn i wneud hyn.)



3.Yn ofalus torrwch fwy ar waelod y botel nes bydd yn mesur tua 7cm o uchder a chydag ymyl fel tonnau.



4.Gwnewch belen fach o Blue Tack a'i sticio yng ngwaelod eich cwch yn y canol.




5.I wneud yr hwyl, gwnewch lun o driongl ongl sgwâr yng nghornel y darn cerdyn a'i liwio'n amryliw. Torrwch allan y triongl ac yna lliwich ochr arall yr hwyl.



6.Os oes ganddoch chi welltyn sydd yn plygu torrwch ef yn y plyg.



7.Defnyddiwch dâp selo er mwyn sticio'r hwyl i'r gwelltyn.

8.Pwyswch waelod y gwelltyn i mewn i'r Blue Tack.





9. Os ydych chi'n dymuno ychwanegu rhwyd i'r cwch, torrwch allan sgwâr o'r bag rhwyllog.



10.Gwasgwch dop y rhwyd at ei gilydd a'i rhoi'n sownd i'r cwch gyda thâp selo.



11.Dowch o hyd i ddŵr a mwynhewch! Efallai yr hoffech chi roi pobl Lego yn y cwch a'u defnyddio i wneud drama fach o'r hanes sydd yn y Beibl am Pedr?


# Crefft

# Pysgod Symudol




**Byddwch angen:**
- 2 daflen o bapur lliw A4
- 1 daflen wen o bapur A4
- Pinnau ffelt
- Siswrn
- Glud



1.Cymrwch un o'r taflenni lliw A4. Plygwch un o'r ymylon er mwyn ffurfio sgwâr.




2.Torrwch I ffwrdd y tamaid papur sydd dros ben ond peidiwch â'i luchio.



3.Agorwch y darn sgwâr a phlygwch yr ymylon tuag at i mewn a'u cael i gyfarfod yn y crych sydd yn y canol.



4. Agorwch y sgwâr ac yna plygwch e'n hanner.




5. Gan gychwyn 2.5cm o'r blaen torrwch y cerdyn mewn llinellau syth hyd at y crych. Ceisiwch gadw'r un pellter rhwng pob toriad. Rhowch y gorau i dorri'r cerdyn 9cm o'r pen arall.



6.Torrwch allan y blaen yn ymyl gron er mwyn ffurfio pen y pysgodyn.



7. Agorwch y papur a rhowch lud ar un ymyl iddo.




8. Dewch â'r ochr arall drosodd a phwyso'r ddau ymyl at ei gilydd i'w rhoi yn sownd.



9.Defnyddiwch y papur sydd dros ben i wneud ceg y pysgodyn.




10. Rhowch lud ar ymyl ceg y pysgodyn a'i roi'n sownd yn ei gorff.



11. I wneud esgyll a chynffon y pysgodyn plygwch yr ail ddarn o bapur lliw A4 . Ar y plyg gwnewch lun o hanner calon fechan a hanner calon fawr. Torrwch nhw allan.



12. Rhowch lud ar y calonnau a'u gludo i waelod y pysgodyn.



13. Defnyddiwch y papur gwyn i wneud llun dwy lygaid a'u torri allan.

14. Gludwch y llygaid ar y pysgodyn ac yna addurnwch yr esgyll a'r gynffon.



# Ryseitiau





## Cychod caws ac afal

**Byddi angen:**

- Afal
- Caws
- Cyllell finiog – a help oedolyn i dorri
- Ffon bach 'cocktail'
- Bwrdd torri

**Beth i'w wneud:**

1. Torra'r afal yn chwarteri, yna torra rhain yn eu hanner eto.
2. Torra'r caws yn ddarnau tua 1cm o drwch ac yn siâp triongl.
3. Yn ofalus rho'r ffôn fach 'cocktail' yn y caws.
4. Rho'r ffon yn sownd yn yr afal.
5. Mwynha gyda phawb yn y tŷ.

---

## Cacennau Pysgod

**Byddi angen:**

- Tun 175g o eog pinc
- 2 lwy fwrdd o flawd plaen
- 1 ŵy wedi'i guro gydag ychydig bach o lefrith
- 150g o datws wedi'u stwnsio a'u hoeri
- 2 lwy de o olew blodau haul
- 50g o friwsion bara
- Croen hanner lemon







**Beth i'w wneud:** ***Byddi angen help oedolyn gydag ambell ran***

COFIA OLCHI DY DDWYLO CYN CYCHWYN COGINIO

1. Gofynna am help oedolyn i baratoi'r tatws. Pilia a berwa 2 neu 3 taten am rhyw 20 munud.
2. Stwnsia'r tatws a'u gadael i oeri.
3. Gofynna i oedolyn gynhesu'r popty ar wres o 190˚C neu nwy marc 5.
4. Gofynna am help oedolyn i agor y tun eog.
5. Ychwanega'r eog a chroen y lemon, ac ychydig o bupur a halen i'r tatws. Cymysga'r cyfan yn dda.
6. Rhanna'r gymysgedd tatws yn beli a'u siapio yn gacennau pysgod.
7. Rho'r cacennau i oeri yn yr oergell am rhyw 15 munud.
8. Cymysga'r ŵy gydag ychydig o lefrith.
9. Mewn tair powlen ar wahân, rho'r ŵy yn un, y blawd mewn un arall, a'r briwsion bara yn y drydedd.
10. Fesul un, rho flawd yn ysgafn dros dy gacennau pysgod.
11. Rho'r cacennau  fesul un yn yr ŵy, yna eu rholio yn y briwsion bara.
12. Gwna hyn i bob cacen bysgod.
13. Gofynna i oedolyn roi 2 lond llwy de o olew blodau haul mewn padell ffrio 'non-stick' a ffria'r cacennau nes eu bod yn euraidd ar y ddwy ochr.
14. Rho'r cacennau ar dun popty a gofynna am help oedolyn i'w rhoi yn y popty i orffen coginio am rhyw 10 munud.









# Gweddi Greadigol

## Gweddi 'Sori':



**Byddi angen:**
- Bwced neu bowlen o ddŵr
- carreg/cerrig
- sialc


**Beth i'w wneud:**
*Yn yr hanes mae Iesu'n gofyn dair gwaith i Pedr os ydy o'n ei garu. Y noson cyn i Iesu gael ei groeshoelio, fe ddwedodd Pedr dair gwaith nad oedd yn adnabod Iesu. Roedd Iesu'n maddau i Pedr.*

- Meddylia am rhywbeth mae'n ddrwg gennyt ti dy fod wedi'i wneud, ddweud neu ei feddwl.
- Cymer garreg.
- Defnyddia'r sialc i ysgrifennu beth wyt ti eisiau dweud sori amdano ar y garreg.
- Yn dawel dweda 'sori' wrth Dduw a gollwnga'r garreg i'r bwcedaid o ddŵr.
- Ar ôl dipyn bydd y dŵr yn golchi'r sialc i ffwrdd.

*Oherwydd fod Iesu wedi marw ar y groes, mae Duw yn maddau i ni am y pethau rydan ni yn eu gwneud sy'n brifo pobl eraill.*


---

## Gweddïau mewn bocsys



**Byddi angen:**
- darn o bapur
- pensil i wneud y dotiau
- pin ffelt lliw gwahanol i bob chwaraewr

**Sut i chwarae a gweddïo:**
Gwna ddotiau mewn rhesi a cholofnau ar bapur fel yn y llun. Mae yna 10 rhes a 10 colofn, ond gelli di ei wneud yn llai. Mae pob chwaraewr yn cymryd tro i dynnu llinell rhwng dau ddot. Ymhen ychydig bydd yn bosibl cau y bocsys.



Mae pwy bynnag sy'n cau bocs yn cael sgwennu neu dynnu llun y tu fewn i'r bocs . Dyma beth fedri di ei roi yn y bocs:
- Enw rhywun. Gofynna i Dduw ei helpu a'u bendithio
- Rhywbeth rwyt ti eisiau diolch i Dduw amdano
- Rhywbeth rwyt ti eisiau gofyn i Dduw amdano

Cymer funud bach i ddweud dy weddi yn uchel, neu yn dy ben, yna ymlaen â'r gêm!
Yr enillydd ydy'r chwaraewr sydd wedi llenwi'r mwyaf o focsys ar ddiwedd y gêm.

# Gweddi Greadigol

## Pysgod yn y rhwyd





**Bydd angen:**

- Pecyn o Hula Hoops neu pretzels neu gareiau ceirios i gynrychioli rhwyd.
- Moron ar gyfer pysgod neu fyrbrydau siâp pysgod a sglodion.
- Caws meddal



Torrwa dafell o foronen i gynrychioli pysgodyn. Taena ychydig o’r gaws meddal ar y ‘pysgod’ Rho’r rhwyd (cylchoedd neu debyg) ar y top. Mae'r pysgod bellach yn cael eu ddal yn y rhwyd ond os byddi di'n ei droi drosodd bydd y pysgod yn rhydd.






Wrth i ti wneud hyn, gofynna i Dduw dy rhyddhau o unrhyw beth sy'n gwneud i ti deimlo dy fod ti'n cael dy ddal mewn rhwyd neu wedi dy drapio - pethau rwyt ti wedi'u gwneud yn anghywir, pethau rwyt ti'n eu cael yn anodd.

Nawr tro’r tri drosodd i ddangos dy fod ti bellach yn rhydd.



# Gŵr y Gwyrthiau


Ffilm sydd wedi’i hanimeiddio gyda Ioan Gruffydd yn lleisio llais Iesu. Mae S4C newydd gyhoeddi y bydd y ffilm ar Clic yn ystod yr wythnosau nesaf - cyfnod o 35 diwrnod felly ewch i Clic a bydd y ffilm yno i’w gwylio.




# Gemau

**Atebion - 'Beth ydy o?' O'r pecyn wythnos diwethaf.**


1




2




3




4



5



6



# Gemau



## Symud y pysgodyn

**Byddi angen:**

- Papur tua maint A4
- Siswrn
- Pensil
- Rhywbeth i liwio
- Papur newydd neu gylchgrawn



**Paratoi i chwarae:**
Torra siâp pysgodyn allan o bapur tua maint A4.
Os wyt ti eisiau, beth am addurno'r pysgodyn?

**Sut i chwarae:**
Defnyddia bapur newydd neu gylchgrawn i greu gwynt i chwythu'r pysgodyn ar hyd y llawr.
Beth am gael ras gyda rhywun arall yn y tŷ?


*Faint o bysgod wnaeth y disgyblion eu dal yn yr hanes?*

## Ras bysgota adnod

"Dyma'r disgybl roedd Iesu'n ei garu yn dweud wrth Pedr, "Yr Arglwydd ydy e!" A dyma Simon Pedr yn rhwymo dilledyn am ei ganol ... yna neidio i'r dŵr." Ioan 21: 7

**Byddi angen:**

- Cerdyn fel bocs grawnfwyd
- Templed pysgodyn
- 15 pysgodyn cerdyn – o'r bocs grawnfwyd
- 16 clip papur
- Amserydd – oriawr neu ffôn
- Llinyn tenau neu edau
- Brigau bach tua 20cm o hyd
- Siswrn
- Tyllwr



**Paratoi i chwarae**
Defnyddia'r templed pysgodyn i wneud 15 o siapiau pysgod.
Sgwenna'r adnod fesul darn ar bob pysgodyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1. "Dyma'r disgybl | 2. roedd Iesu'n | 3. ei garu |
| 4. yn dweud | 5. wrth Pedr, | 6. "Yr Arglwydd |
| 7. ydy e!" | 8. A dyma | 9. Simon Pedr |
| 10. yn rhwymo | 11. dilledyn am | 12. ei ganol ... |
| 13. yna neidio | 14. i'r dŵr." | 15. Ioan 21: 7 |

Rho dwll yn nhrwyn pob pysgodyn a rho glip papur drwy'r twll.
Gwna wialen bysgota fel hyn:
Clyma linyn neu edau yn sownd yn un pen i'r brigyn.
Clyma glip papur ym mhen arall y llinyn neu'r edau.
Agora ychydig ar y clip papur fel ei fod fel bachyn.




**Sut i chwarae**
Mae pob cystadleuydd yn cael tro i ddal pysgod.
Mae'n rhaid i'r cystadleuydd ddal y pysgod yn nhrefn yr adnod.
Pwy fedr ddal y mwyaf o bysgod mewn 3 munud?

*Faint o bysgod oedd y disgyblion wedi'u dal cyn i Iesu ddweud wrthyn nhw am roi tro arni eto?*



# Gemau



## Ras ddŵr - I'w chwarae tu allan!



**Byddi angen:**
Cwpan new jwg blastig
2 fwced neu bowlen
Pren mesur
Amserydd – oriawr neu ffôn

**Sut i chwarae:**
Mae hyn yn hwyl os oes yna fwy nag un chwaraewr er mwyn cael cystadleuaeth.
Gosoda un bwced gyda dŵr ynddi ar un pen i'r ardd a'r bwced wag ar ben arall yr ardd – tua 10 cam mawr oddi wrth ei gilydd.
Mae pob chwaraewr yn cael 2 funud i gario dŵr yn y gwpan o un bwced i'r llall.
Cofia ddefnyddio'r pren mesur i fesur faint o ddŵr mae'r chwaraewr yn llwyddo i'w gasglu.
Beth am gael cystadleuaeth rhwng pawb yn y tŷ i weld pwy fedr gasglu'r mwyaf o ddŵr?

*Pa mor bell o'r lan oedd y cwch pan neidiodd Pedr i mewn i'r dŵr a nofio i'r lan?*

## Dal yr adnod

**Byddi angen:**
- Pêl
- 2 neu fwy o chwaraewyr
- Geiriau'r adnod:
    1. "Dyma'r disgybl
    2. roedd Iesu'n
    3. ei garu
    4. yn dweud
    5. wrth Pedr,
    6. "Yr Arglwydd
    7. ydy e!"
    8. A dyma
    9. Simon Pedr
    10. yn rhwymo
    11. dilledyn am
    12. ei ganol ...
    13. yna neidio
    14. i'r dŵr."
    15. Ioan 21: 7




**Sut i chwarae:**
Mae gan un person eiriau'r adnod.
Mae'r person nesaf yn taflu'r bêl i'r person nesa ac yn dweud darn cynta'r adnod.
Mae'r person sy'n dal y bêl yn dweud y darn o'r adnod ac yn taflu'r bêl i'r person nesaf.
Mae'r person hwn yn dweud y darn o'r adnod ac yn taflu'r bêl ymlaen i'r nesaf.
Pan fydd y bêl yn cyrraedd yn ôl i'r person gyda'r geiriau, mae'n cychwyn eto gyda darn nesa'r adnod.
Mae'r gêm yn parhau nes bod pawb wedi dweud pob darn o'r adnod.
Yr enillydd ydy'r person sy'n gallu dweud yr adnod i gyd ar ddiwedd y gêm.

# Canu

Weithiau dwi'n gwybod  i mi fod yn ddrwg;
dweud pethau sy'n brifo a siomi dwi'n siwr.
Arglwydd Dad, maddau i mi;
dyna yn syml fy ngweddi.
O 'dwisio dweud, O 'dwisio dweud
Arglwydd mae'n ddrwg gen i.





Anghwrtais i'm teulu, am gael ffordd fy hun
heb fod yn garedig wrth neb yn y tŷ
Arglwydd Dad, maddau i mi;
dyna yn syml fy ngweddi.
O 'dwisio dweud, O 'dwisio dweud
Arglwydd mae'n ddrwg gen i.





Rwyt ti yn fy ngharu - yn maddau o hyd;
Dy Ysbryd sy'n gwella fy nghalon i gyd.
Arglwydd Dad, helpa fi
Dy blesio, o dyna fy ngweddi.
O dwisio dweud, mae'n rhaid i mi ddweud
Arglwydd dwi'n caru ti.

Hawlfraint 1990 Greg Leavers Cyf. Llŷr Edwards

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar  https://youtu.be/hkHTG1bpnc0

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Dolenni



Sgetsh y stori https://youtu.be/5j_XQ-2u1nw

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/hkHTG1bpnc0

Cartŵn (Saesneg): Peter is forgiven https://www.youtube.com/watch?v=Ppb9bKX1r7k

Cartŵn (Saesneg): Veggietales Easter Carol https://www.youtube.com/watch?v=2OHo6B4EpeI&t=35s

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Comic y Pasg https://issuu.com/ysgolsul/docs/comic_pasg_-_heb

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch ‘Subscribe’)

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home